Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 4/2025

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2025

# Y Warant i Bobl Ifanc: asesiad gwerthusadwyedd a fframwaith gwerthuso arfaethedig

## Crynodeb

### 1. Nodau a methodoleg yr ymchwil

1.1 Nod y Warant i Bobl Ifanc (y Warant) yw cynnig cymorth i bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig. Fe'i darperir gan amrywiaeth eang o raglenni, fel Cymru'n Gweithio, Cymunedau am Waith a Mwy a Thwf Swyddi Cymru+ (TSC+), a phartneriaid fel Busnes Cymru. Mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn ategu'r Warant. Ei nod yw cefnogi'r gwaith nodi a chymorth cynnar i bobl ifanc 11 i 18 oed sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

1.2 Nod yr astudiaeth hon yw datblygu fframwaith cadarn i gefnogi'r gwaith o werthuso'r dull ‘system gyfan’ o gyflawni'r Warant. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys:

- Adolygiad desg o'r canlynol:
  - polisi ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar bontio pobl ifanc o'r ysgol i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (EET) ôl-16;
  - gwerthusiadau o ymyriadau cymorth EET a systemau 'cymhleth'; a
  - data, gan gynnwys ystadegau cenedlaethol (er enghraifft, y Datganiad Ystadegol Cyntaf Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur), data gweinyddol (er enghraifft, o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru), a data gwybodaeth reoli rhaglenni.

- Cyfweliadau a thrafodaeth gydag amrywiaeth o randdeiliaid sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu'r Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, gan gynnwys aelodau o dimau polisi a rhanddeiliaid y Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid sydd â chyfrifoldebau mewn meysydd fel addysg bellach a phrentisiaethau, Gwaith Teg, Gyrfa Cymru a pholisi cyflogadwyedd.

1.3 Roedd data a gasglwyd drwy'r dulliau hyn wedi llywio'r gwaith o ddatblygu damcaniaeth newid, asesiad gwerthusadwyedd a fframwaith gwerthuso ar gyfer y Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid.

## 2. Damcaniaeth newid y Warant


2.1 Mae Ffigur 2.1. yn dangos y ddamcaniaeth newid lefel uchel (‘meta’) ar gyfer y Warant. Mae’n dangos sut drwy ddarparu'r cynnig cymorth, nod y Warant yw cyfrannu at y garreg filltir genedlaethol y bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET) erbyn 2050. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bobl ifanc fanteisio ar y cynnig cymorth ac i'r cynnig cymorth hwnnw wedyn eu helpu i gael mynediad at EET a'i gynnal.

2.2 Mae'r ddamcaniaeth newid yn defnyddio'r Fframwaith COM-B (Michie et al., 2011) o newid ymddygiadol i archwilio sut y rhagwelir y bydd y Warant yn **ysgogi** pobl ifanc i fanteisio ar y cynnig cymorth drwy, er enghraifft, ymgyrchoedd marchnata fel Bydd Bositif. Drwy fanteisio ar gymorth, rhagwelir y bydd:

- pobl ifanc yn meithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth, gan wella eu **galluoedd**; a/neu
- yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau, gan gynyddu eu mynediad at **gyfleoedd** EET, a
- dylai hyn, yn ei dro, **ysgogi** newidiadau yn eu **hymddygiad** mewn perthynas ag EET.[1]

[1] Mae hefyd yn bosibl y byddai'r cynnig cymorth yn ysgogi pobl ifanc i newid eu hymddygiad - a allai gynnwys camau gweithredu sydd hefyd yn gwella eu galluoedd (er enghraifft, cymryd rhan mewn hyfforddiant) a/neu fynediad at gyfleoedd (er enghraifft, drwy gymryd camau i oresgyn rhwystrau, fel cyfrifoldebau gofalu). Bernir bod y math hwn o effaith yn llai tebygol, ond byddai'n fwy anodd ei nodi a'i ynysu oddi wrth ffactorau eraill, oherwydd y prif newid ymddygiadol y gellir ei weld fyddai mwy o bobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd EET, o gymharu â phobl ifanc yn manteisio ar y cynnig cymorth am y tro cyntaf drwy'r Warant ac yna'n manteisio ar gyfleoedd EET.

**Ffigur 2.1. Damcaniaeth newid lefel uchel ('meta') y Warant**



## 3. Yr Asesiad Gwerthusadwyedd a'r fframwaith gwerthuso

3.1 Mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd a'r fframwaith gwerthuso proses, effaith ac economaidd arfaethedig yn seiliedig ar y ddamcaniaeth newid (ffigur 2.1.) ac mae'n canolbwyntio ar werthuso newid ar dair lefel gydgysylltiedig:

- **Polisi ac ymarfer:** sut y mae'r cynnig cymorth i bobl ifanc 16-24 oed yn newid (canlyniadau polisi);
- **Ymddygiad pobl ifanc:** sut y mae ymddygiad pobl ifanc 16-24 oed yn newid mewn ymateb i newidiadau yn y cynnig cymorth (canlyniadau ymddygiadol); a
- **Chanlyniadau cymdeithasol**: sut y mae newidiadau yn ymddygiad pobl ifanc 16-24 oed yn cyfrannu at ganlyniadau ehangach, fel cryfhau ffyniant, iechyd ac iaith Cymru.

3.2 Ar gyfer pob lefel, mae'r gwerthusadwyedd yn cael ei asesu mewn perthynas â nodi:

- beth sydd wedi newid; mae hyn yn cynnwys asesu a fu newidiadau polisi neu newidiadau o ran ymddygiad pobl ifanc; a
- pham ei fod wedi newid; deall y rhesymau dros y newidiadau hyn.

3.3 Yna caiff cynigion i wneud hyn eu cyflwyno ar ffurf y fframwaith gwerthuso.

### Systemau a safbwyntiau rhaglen ar y Warant

3.4 Er mwn darparu'r data angenrheidiol, mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd yn nodi'r angen i gymryd dau safbwynt ategol:

- safbwynt **ar draws systemau**; a
- ffocws culach ar un o elfennau unigol y Warant i Bobl Ifanc, megis **rhaglen** allweddol sy'n rhan o'r Warant (er enghraifft, TSC+).

3.5 Un enghraifft o fesur lefel system fyddai cyfran y bobl ifanc anabl sy'n NEET ac enghraifft o fesur lefel rhaglen fyddai cyfran y bobl ifanc sy'n cael eu cynorthwyo gan TSC+ sy'n anabl.

3.6 Oherwydd mai nod yr astudiaeth hon yw gwerthuso'r dull 'system gyfan' o gyflawni'r Warant, mae mesurau lefel system yn well ar y cyfan. Fodd bynnag, mae bylchau mewn data ar lefel system y gellir eu llenwi (yn rhannol) dim ond drwy ddefnyddio data lefel rhaglen. Er enghraifft, mae mwy o ddata cynhwysfawr ar nodweddion pobl ifanc a oedd yn NEET ond sydd bellach yn ymgysylltu â rhaglenni ar gael ar lefel rhaglen nag ydyw ar lefel system. At hynny, mewn rhai achosion, bydd mesurau lefel rhaglen yn well hyd yn oed pan fo mesurau lefel system ar gael. Er enghraifft, gan fod y system o gymorth i bobl ifanc yn cynnwys sawl rhaglen wahanol, gall deall perfformiad rhaglenni gwahanol ein helpu i ddeall yn well sut y mae gwahanol rannau o'r system yn perfformio. Fodd bynnag, oherwydd bod system yn fwy na chyfanswm ei rhannau, ni ellir deall priodoleddau system drwy edrych ar bob cydran ar ei phen ei hun. Felly, ni fydd mesurau lefel rhaglen byth yn ddigonol i esbonio'r system (Trysorlys EM, 2020).

**Mesur newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc**

3.7 Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r ddamcaniaeth newid ar gyfer y Warant yn nodi er mwyn cyflawni ei nodau, fel cynyddu cyfran y bobl ifanc mewn EET, bydd angen i'r Warant annog a galluogi newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc. Oni bai bod cyfran gynyddol o bobl ifanc yn manteisio ar y cynnig cymorth a/neu yn manteisio ar gyfleoedd EET,[2] ni ellir cyflawni'r nodau hirdymor y mae'r Warant yn ceisio cyfrannu atynt, fel 90% o bobl ifanc mewn EET[3].Felly, bydd y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a amlinellir yn ffigur 3.1 yn cael eu defnyddio i fesur newidiadau mewn dwy agwedd ar ymddygiad pobl ifanc:

- nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni neu gymorth; a
- nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni neu gymorth sy'n mynd i EET.

3.8 Fel y dengys ffigur 3.1 (ar dudalen 6), mae'r prif fesurau newid arfaethedig yn defnyddio mesurau lefel system a rhaglen i ddadansoddi llwyddiant mewn perthynas â: (i) nodi a chymorth cynnar i atal pobl ifanc rhag ymddieithrio o addysg (atal) a (ii) cymorth i'r rhai sy'n NEET i ailymgysylltu ag EET. Mae'r mesurau hyn yn sail i dair set o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA): un set ar gyfer y Warant yn unig sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc 16-24 oed; mae ail set ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc 11-18 oed; ac mae trydedd set o DPA a rennir ar gyfer y ddau fframwaith.

3.9 Mae mesurau canlyniadau fel DPA dim ond yn darparu mesur o newid; nid ydynt yn esbonio sut a pham mae newid yn digwydd. Mae Ffigur 3.2. ar y dudalen ganlynol yn rhoi trosolwg o'r fframwaith gwerthuso ei hun, gan ddisgrifio sut y gellid defnyddio data sylfaenol ac eilaidd (a'u triongli) i archwilio sut a pham mae newid mewn polisi, ymddygiad pobl ifanc a chymdeithas yn digwydd.

## 4. Casgliadau

4.1 Mae'r Warant yn werthusadwy. Mae newid ar bob un o'r tair lefel a nodwyd gan y ddamcaniaeth newid (hynny yw, polisi ac ymarfer, ymddygiad pobl ifanc, a chymdeithas) yn fesuradwy. Fodd bynnag, mae priodoli effaith (nodi cyfraniad y Warant at newidiadau yr arsylwyd arnynt) dim ond yn ymarferol ar lefel polisi ac ymarfer ac ymddygiad pobl ifanc. Argymhellir felly bod dull sy'n

---

[2] Fel y nodwyd, mae'n bosibl y byddai cael gwarant o gymorth yn ddigonol i ysgogi gweithredu, hyd yn oed pe na bai pobl ifanc yn manteisio ar y cynnig cymorth (sy'n golygu efallai nad yw manteisio ar gymorth yn un o'r amodau angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r garreg filltir).

[3] Dyma un o'r dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol, a ddefnyddir i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel: 'Bydd o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050' (Llywodraeth Cymru, 2021, t. 9).

seiliedig ar ddamcaniaeth, fel dadansoddiad o gyfraniad (Mayne, 2011), yn cael ei ddefnyddio. Fel yr amlinellir yn ffigur 3.1. argymhellir bod hyn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau a ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd i archwilio newid ar lefel system a rhaglen. Dylai hyn gynnwys gwerthusiadau effaith empirig o raglenni unigol.  Er efallai na fydd yn bosibl mesur effaith ar ganlyniadau cymdeithasol, gall fod yn bosibl dod i gasgliad ynghylch effeithiau tebygol newidiadau mewn ymddygiad pobl ifanc (fel mwy o bobl ifanc mewn EET) ar ganlyniadau cymdeithasol (fel llesiant ac iechyd pobl ifanc).


**Ffigur 3.1. Fframwaith perfformiad: prif DPA arfaethedig**

| Allwedd | DPA penodol i'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid | DPA penodol i'r Warant | DPA a Rennir |
|---|---|---|---|

| Ffocws: | DPA a awgrymir | |
|---|---|---|
| Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: atal 11-18 | Mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed mewn EET y nodir eu bod mewn perygl o ymddieithrio yn gostwng (Data Categoreiddio Gyrfa Cymru) * | **DPA cyffredinol:** Mae cyfran y bobl ifanc 16-24 oed sy'n EET yn cynyddu (data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf) |
| Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant i Bobl Ifanc Atal ac ailymgysylltu 16-18 | Mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n EET yn cynyddu (data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf) | |
| | Mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n manteisio ar gymorth yn cynyddu (data gwybodaeth reoli'r rhaglen) | |
| Y Warant Atal ac ailymgysylltu 19-24 | Mae cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n manteisio ar gymorth yn cynyddu (data gwybodaeth reoli'r rhaglen) | |
| | Mae cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n EET yn cynyddu (data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf) | |

* Defnyddir gostyngiad yng nghyfran y bobl ifanc 16-18 oed y bernir eu bod mewn perygl o ymddieithrio fel mesur uniongyrchol o lwyddiant ar gyfer y rhai 16-18 oed ac fel mesur procsi ar gyfer y rhai 11-15 oed, ar y sail y dylai nodi cynnar ar gyfer pobl ifanc 11-15 oed leihau eu risgiau o ymddieithrio wrth iddynt fynd yn hŷn.

**Ffigur 3.2. Trosolwg o'r Fframwaith Gwerthuso**




*Gellir ystyried bod cyfranogiad pobl ifanc mewn EET yn ganlyniad ymddygiadol a chymdeithasol.

**Yn debygol o ystyried, er enghraifft, cyfraniad rhaglenni at nodau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

*** Lansiwyd y Sgwrs Genedlaethol ym mis Mai 2022 a'i nod yw rhoi barn pobl ifanc am eu profiadau o EET ôl-16.

**** Bydd 100 o bobl ifanc sydd â nodweddion gwahanol yn cael eu cyfweld fel rhan o'r gwerthusiad proses.

**Cyfeiriadau**

Trysorlys EM (2020), Magenta Book 2020: Supplementary Guide: Handling Complexity in Policy Evaluation. Gwefan Trysorlys EF.

Mayne, J. (2011), Contribution Analysis: Addressing Cause and Effect. In Evaluating the Complex, K. Forss, M. Marra ac R. Schwartz (Golygyddion), Efrog Newydd: Routledge.

Michie, S., van Stralen, M. M. a West, R. (2011) A behaviour change wheel: a new method for characterising and designing behaviour change methods, Implementation Science, 6: 42.

Llywodraeth Cymru (2021), Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol i Gymru. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Awduron yr Adroddiad: Dr Duncan Holtom gyda Dr Leon Quinn

Pobl & Gwaith | People & Work

Adroddiad Ymchwil Llawn: Holtom, Duncan gyda Quinn, Leon (2024). *Y Warant i Bobl Ifanc: Asesiad Gwerthusadwyedd a Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 4/2025.
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/y-warant-i-bobl-ifanc-asesiad-gwerthuso-fframwaith-gwerthuso-arfaethedig

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sydd yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr Lydia Lewis
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: LMI@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-106-6